



DINAS A SIR CAERDYDD  
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

---

**GWŶS Y CYNGOR** : **27 TACHWEDD 2014**

**COUNCIL SUMMONS** : **27 NOVEMBER 2014**

---

Fe'ch gwysir i fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn NEUADD Y DDINAS, PARC CATHAYS, CAERDYDD ddydd Iau 27 Tachwedd 2014 am 4.30pm, i drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**MARIE ROSENTHAL**  
**Clerc y Sir a Swyddog Monitro**

Neuadd y Sir  
Caerdydd  
CF10 4UW  
21 Tachwedd 2014

---

Promotion of equality and respect for others | Objectivity and propriety | Selflessness and stewardship  
Integrity | Duty to uphold the law | Accountability and openness



Eitem		<i>Amcangyfrif o'r Amser</i>	<i>Uchafswm amser a bennir</i>
1.	<b>Ymddiheuriadau</b>	4.30pm	
2.	<b>Cofnodion</b>  <i>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2014 fel cofnod cywir.</i>		
3.	<b>Datgan Buddiannau</b>  <i>Derbyn datganiadau o fuddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau).</i>		
4.	<b>Cyhoeddiadau</b>  <i>Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd.</i>	4.35pm	5 munud
5.	<b>Deisebau</b>  <i>Cael deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor.</i>	4.40pm	5 munud
6.	<b>Datganiadau</b>  <i>Cael datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet</i>	4.45pm	30 munud
7.	<b>Cynllun Trafnidiaeth Lleol</b>  <i>Atodir Adroddiad Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth</i>	5.15pm	45 munud
8.	<b>Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2014-15</b>  <i>Atodir Adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau</i>	6.00pm	25 munud

10.	<p><b>Cwestiynau ar Lafar</b></p> <p><i>Cael cwestiynau llafar i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet; Cadeiryddion Pwyllgorau a/neu Aelodau a enwebwyd o'r Awdurdod Tân.</i></p>	6.25pm	90 munud
12.	<p><b>Hysbysiad Cynnig</b></p>		
	<p><b><u>CYNNIG 1</u></b></p> <p>Mae'r Cyngor hwn yn nodi y gall gymryd hyd at ddeng mlynedd i'r Cyngor fabwysiadu safleoedd datblygu newydd yn y ddinas. Nid yw datblygwyr na Dŵr Cymru yn rhoi blaenoriaeth i hyn, ac mae preswylwyr y safleoedd hynny yn cael anawsterau o ran cael gwaith atgyweirio gofynnol wedi'i wneud, er enghraifft ar y ffyrdd, palmentydd a goleuadau stryd, gan mai datblygwyr y safle sy'n gyfrifol am waith atgyweirio o'r fath tan caiff y safle ei fabwysiadu gan y Cyngor. Maent yn cael gwasanaeth eilradd mewn gwirionedd.</p> <p>Caiff miloedd ar filoedd o eiddo newydd eu codi yn ein dinas dan y Cynllun Datblygu Lleol. Gallai hyn olygu y bydd llawer yn fwy o breswylwyr sy'n talu'r dreth gyngor yn dioddef oni chymerir camau i wella'r sefyllfa.</p> <p>Gan hynny, mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i lunio protocol rhwng y Cyngor, Dŵr Cymru a'r Datblygwr, i'w gyflwyno yn ôl i'r Cyngor erbyn diwedd y blwyddyn ddinesig, er mwyn sicrhau y caiff y broses fabwysiadu o ran holl ddatblygiadau'r dyfodol ei chwblhau o fewn dwy flynedd o godi'r eiddo olaf ar y safle, lle bynnag y bo'n bosibl.</p> <p>Dylai'r Cabinet hefyd fynd ati'n rhagweithiol i sicrhau y caiff pob safle sydd ar hyn o bryd yn aros i gael eu mabwysiadu yn cael eu mabwysiadu o fewn 18 mis o dderbyn yr Hysbysiad Cynnig hwn.</p> <p><b>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Woodman</b></p> <p><b>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Aubrey</b></p>	7.55pm	30 munud

	<p><b><u>CYNNIG 2</u></b></p> <p>Mae gan lawer o Gyngorau Faer leuenctid a Dirprwy Faer leuenctid. Yn ogystal â chynrychioli pobl ifanc a'r Cyngor mewn digwyddiadau ledled y ddinas, maent hefyd yn cynorthwyo'r Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer lle y bo'n briodol.</p> <p>Mae'n hanfodol cynnig cyfleoedd i bobl ifanc gyfrannu at y broses o ddatblygu a chyflenwi ein gwasanaethau cyhoeddus, a chwarae rôl ystyrlon o ran datblygu cydlyniant cymunedol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â phartneriaid ar draws cymunedau er mwyn cynnig rhagor o gyfleoedd gwerthfawr i bobl ifanc yn ein dinas ddatblygu eu gwybodaeth a magu profiad. Mae Meiri leuenctid a Dirprwy Feiri leuenctid yn gosod esiampl o'r cyfraniadau rhagorol a wneir gan bobl ifanc ledled Caerdydd, ac yn sicrhau bod llais pobl ifanc yn cael ei glywed.</p> <p>Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i gyflwyno cynigion, erbyn cyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr 2015, i benodi Maer leuenctid a Dirprwy Faer leuenctid ar yr un pryd â'r Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer ym mis Mai 2015.</p> <p><b>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Cowan</b></p> <p><b>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Holden</b></p>	8.25pm	30 munud
12.	<b>Materion Brys</b>	8.55pm	5 munud
	<b>BUSNES DIWRTHWYNEBIAD Y CYNGOR</b>	9.00pm	5 munud
13.	<p><b>Penderfyniad a Gymerwyd dan Reol 13 y Weithdrefn Graffu – Penodi Darparwyr i'r Rhestr o Ddarparwyr Achrededig ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cartref yng Nghaerdydd</b></p> <p><i>Nodi'r penderfyniad brys a gymerwyd gan Gyfarwyddwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol dan Reol 13 Gweithdrefn Graffu Cyfansoddiad Caerdydd.</i></p>		

14.	<p><b>Arolwg o Ddosbarthiadau Etholiadol, Lleoliadau Pleidleisio a Gorsafoddd Pleidleisio</b></p> <p><i>Atodir Adroddiad Clerc a Swyddog Monitro'r Sir</i></p>		
15.	<p><b>Penodiadau Awdurdod Lleol i Lywodraethwyr Ysgolion</b></p> <p>(Mae adroddiad Clerc y Sir a Swyddog Monitro wedi'i atodi)</p>		
16.	<p><b>Penodiadau i Seddi ar Bwyllgorau</b></p> <p>(Mae adroddiad Clerc y Sir a Swyddog Monitro wedi'i atodi)</p>		

Cwestiynau Ysgrifenedig – Yn unol â Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor, caiff Cwestiynau Ysgrifenedig a ddaw i law i'w hystyried ac ymateb iddynt eu cyhoeddi ar Wefan y Cyngor cyn y cyfarfod a chânt eu cynnwys yng nghofnodion y cyfarfod.